Cyngor Sgiliau'r Sector ar gyfer
Cemegau, Fferylleg, Niwclear, Olew a Nwy, Petroliwm a Pholymerau

www.cogent-ssc.com

Y Diwydiant Petroliwm

Mae'r diwydiant (a adwaenir hefyd fel y sector eilaidd) yn cynnwys:

- Sefydlogi, puro a chynhyrchu
- Cadw, cymysgu a dosbarthu
- Adwerthu tanwydd modurol

Prif gynnyrch y sector petroliwm eilaidd yw tanwydd cludiant (tanwydd awyrennau, diesel a phetrol di-blwm) a all gynrychioli hyd at 60% o gynnyrch purfa. Mae'r farchnad tanwydd cludiant yn y DU yn cynrychioli tua 50 miliwn tunnell y flwyddyn, a rennir rhwng y marchnadoedd masnachol ac adwerthu yn ogystal ag awyrennau. Mae'r farchnad fasnachol yn cynnwys cludiant diwydiannol (ceir, lorïau, bysys a threnau), cludiant ar y môr (diesel i longau) ac amaethyddiaeth (tractorau ayb.), yn ogystal â'r Llywodraeth, sy'n cynnwys gwasanaethau cyhoeddus a cherbydau milwrol.

Mae'r diwydiant yn creu tanwyddau newydd, yn fwy "gwyrdd", megis biodiesel/bioethanol wedi'i gynhyrchu o ffynnonellau adnewyddadwy fel olewau llysiau/gwenith, er mwyn lleihau niwed i'r amgylchedd. Mae Cymdeithas Diwydiant Petroliwm y DU (UKPIA) wedi dweud y bydd cerbydau hyd yn oed yn fwy glân erbyn 2009, a byddant yn achosi llai o lygredd. Bydd cerbydau hybrid yn debygol o fod yn fwy cyffredin, yn arbennig mewn ardaloedd dinesig. (Car hybrid yw car sy'n rhedeg ar gymysgedd o betrol a phŵer trydanol ac sy'n achosi llai o lygredd).

Darlun economaidd o'r Diwydiant Petroliwm[1]

Diwydiant	Trosiant	Gwerth Ychwanegol Crynswth (GYC)[2]	GYC y gweithiwr
Cynhyrchion petroliwm wedi'u puro	£31.01bn	£1.64bn	£126,308
Adwerthu tanwydd modurol	£21.77bn	£2.24bn	£39,333
Cyfansymiau	**£52.78bn**	**£3.88bn**	**Cyfartaledd £55,486**

Manylion y diwydiant[3]

Cyfrifir purfeydd y DU yn **17eg** (allan o 26) yn Ewrop ar gyfer perfformiad cystadleuol

Mae'r diwydiant petroliwm yn cynrychioli **0.5% o GYC y DU**

Nifer y purfeydd: **9**

Trwygyrch purfeydd (2006): **82 miliwn tunnell fetrig**

Gallu puro: **1.8 miliwn casgen y dydd** (4ydd yn nwyrain Ewrop o ran maint)

Gwerthiant crynswth (2005): **£69 billion**

Gwerthiant Tanwydd (2006): **50 biliwn litr**

Gwerthiant Petrol (2006) **50%**: Gwerthiant Diesel (2006) **50%**

Gorsafoedd petrol y DU (2006): **9382** (lleihad blynyddol o tua 600 safle)

Gorsafoedd petrol archfarchnadoedd (2006): **1191** (13% o'r holl orsafoedd petrol)

Mae'r defnydd o danwydd gan gerbydau teithwyr ar y ffyrdd wedi cynyddu o **72%** ers 1970

Mae cyfartaledd allyriadau CO2 o geir newydd 11% yn is nag yn 1995

[1]Ymchwiliad Busnes Blynyddol 2005 - data wedi'u rhyddhau Fis Tachwedd 2006, ar gael gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol
[2]GYC yw'r gwahaniaeth rhwng gwerth nwyddau a gwasanaethau a gynhyrchir a chost nwyddau crai ac eitemau mewnbwn eraill a ddefnyddir yn ystod y cynhyrchu
[3]Adolygiad Ystadegol 2007 Cymdeithas Diwydiant Petroliwm y DU (UKPIA) a Dangosyddion Sector Ynni'r DU 2007

Gweithlu'r Diwydiant Petroliwm[4]

Dosraniad y Gweithlu	
Nifer o Gyflogwyr[5]	200 (7,000 gan gynnwys adwerthu ar y blaengwrt)
Nifer o Weithwyr[5]	120,000 (gan gynnwys adwerthu ar y blaengwrt)•
Oedran y gweithlu	
– 16-24	7%
– 25-34	11%
– 35-44	37%
– 45-54	32%
– 55+	13%
Ethnigrwydd	
– Gwyn	94%
– Heb fod yn wyn	6%
Rhyw	
– Benywaidd	24%
– Gwrywaidd	76%

Dosraniad galwedigaethau (heb gynnwys adwerthu ar y blaengwrt)	
Rheolwyr ac Uwch Swyddogion	28%
Galwedigaethau Proffesiynol	12%
Proffesiynol a Thechnegol Cysylltiol	17%
Gweinyddol ac Ysgrifenyddol	14%
Galwedigaethau Crefftau Medrus	5%
Galwedigaethau Gwerthu a Gwasanaethau Cwsmeriaid	2%
Gweithwyr Prosesau, Offer a Pheiriannau	16%
Galwedigaethau Elfennol	5%

* Y 1% dros ben mewn Galwedigaethau Gwasanaethau Personol

• Gall amcangyfrifon o'r diwydiant fod yn fwy na data gweithwyr yr Ymchwiliad Busnes Blynyddol oherwydd gweithlu contractwyr a chyfyngiadau SIC

Y Bwlch Sgiliau[5]

Y Bwlch Sgiliau yn y Diwydiant Petroliwm



Mae gorgyflenwad o bobl â chymwysterau S/NVQ level 1 ac yn is, o'i gymharu â nifer y swyddi yn y lefel hon yn y diwydiant Petroliwm.

Mae swyddi elfennol yn cynrychioli dim ond 5% o'r holl weithlu.

Mae 20% YN ORMOD o bobl â chymwysterau S/NVQ lefel 1.

Mae diffyg o bobl â chymwysterau S/NVQ level 2 a 3, o'i gymharu â chyfran y swyddi yn y lefelau hyn yn y Diwydiant Petroliwm.

Mae galwedigaethau lefel 2 a lefel 3 yn cynrychioli 54% o'r Diwydiant Petroliwm.

Mae DIFFYG o 20% o bobl â chymwysterau S/NVQ lefelau 2 a 3.

Rhestriad y Dosbarthiad Diwydiannol Safonol (SIC)[6]

Y Diwydiant Petroliwm yn ôl cod SIC:	23.10	23.20/1	23.20/2	50.50

[4]Arolwg o'r Gweithlu, Ionawr 2006 - Rhagfyr 2006
[5]Amcangyfrifon Cogent o'r Diwydiant
[6]Y Swyddfa Ystadegau Gwladol - Dosbarthiad Diwydiannol Safonol (SIC) 2003

Manylion Cyswllt

Cyfeiriad y swyddfa:
Cogent SSC Cyf, Uned 5,
Mandarin Court, Centre Park,
Warrington, Cheshire WA1 1GG

Cyfeiriad e-bost
research@cogent-ssc.com

Gwefan
www.cogent-ssc.com

PET007

Mae'r data'n ddilys tan Fis Mehefin 2008